

2021 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40
(Cylchfan Dixton i Ffin
Cymru/Lloegr, Sir Fynwy)
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)
2021

Gwnaed 4 Mawrth 2021

Yn dod i rym 6 Mawrth 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A40, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Dixton i Ffin Cymru/Lloegr, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2021 a daw i rym ar 6 Mawrth 2021.

2. Yn y Gorchymyn hwn:—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

2021 No. (W.)

ROAD TRAFFIC, WALES

The A40 Trunk Road (Dixton
Roundabout to the Wales/England
Border, Monmouthshire)
(Temporary Prohibition of
Vehicles) Order 2021

Made 4 March 2021

Coming into force 6 March 2021

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A40 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Title, Commencement and Interpretation

1. The title of this Order is the A40 Trunk Road (Dixton Roundabout to the Wales/England Border, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2021 and it comes into force on 6 March 2021.

2. In this Order:—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 04:00 ar 6 Mawrth 2021 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A40 Casnewydd i Gaerwrangon;

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2 i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 4 Mawrth 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1 Gwahardd Cerbydau Dros Dro

1. Y darn o gerbyffordd tua’r dwyrain yr A40 sy’n ymestyn o drwyniad cerbyffordd gylchredol yr A40 wrth Gylchfan Dixon hyd at ffin Cymru/Lloegr.

ATODLEN 2 Cau Cilfan

2. Y darn o gilfan tua’r dwyrain yr A40 rhwng Cylchfan Dixon a ffin Cymru/Lloegr.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A40 Newport to Worcester trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 04:00 on the 6 March 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 and 2 to this Order.

Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 6 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 4 March 2021

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government

SCHEDULE 1 Temporary Prohibition of Vehicles

1. The length of the A40 eastbound carriageway that extends from the nosing of the A40 circulatory carriageway at Dixon Roundabout to the Wales/England Border.

SCHEDULE 2 Closure of Layby

2. The length of the A40 eastbound Layby between Dixon Roundabout and the Wales/England Border.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40
(CYLCHFAN DIXTON I FFIN
CYMRU/LLOEGR, SIR FYNWY)
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2021**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig am fod gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, yn Nhrefynwy yn Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A40 a bennir yn Atodlen 1 ac Atodlen 2 i'r hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn Atodlen 3 i'r hysbysiad hwn.

Caniateir i breswylwyr fynd i fangreoddd lleol a dod ohonynt a chaiff unrhyw lwythi annormal eu hebrwng drwy'r darn o'r ffordd sydd ar gau yn ystod cyfnodau'r gwaharddiad.

Bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn weithredol dros nos rhwng 21:00 o'r gloch ar 6 Mawrth 2021 a 04:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2021 a rhwng 21:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2021 a 04:00 o'r gloch ar 8 Mawrth 2021 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol. Bydd yn ofynnol cau'r ffordd eto a bydd hynny'n weithredol dros nos rhwng 21:00 o'r gloch ar 3 Ebrill 2021 a 04:00 o'r gloch ar 4 Ebrill 2021 a bydd arwyddion rhybudd ymlaen llaw yn hysbysu'r cyhoedd.

Bydd y gilfan ar gau rhwng 04:00 o'r gloch ar 6 Mawrth 2021 a 04:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2021 a rhwng 21:00 o'r gloch ar 7 Mawrth 2021 a 04:00 o'r gloch ar 8 Mawrth 2021. Bydd yn ofynnol cau'r gilfan eto o 04:00 o'r gloch ar 3 Ebrill 2021 hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod yr amseroedd a'r dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**THE A40 TRUNK ROAD (DIXTON
ROUNDAABOUT TO THE WALES/ENGLAND
BORDER, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2021**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road at Monmouth in the County of Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on lengths of the A40 trunk road specified in Schedule 1 and Schedule 2 to this notice. The alternative route is described in Schedule 3 to this notice.

Access and egress will be granted for residents to local premises and any abnormal loads will be escorted through the closure length during the prohibition periods.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, will operate overnight from 21:00 hours on 6 March 2021 until 04:00 hours on 7 March 2021 and from 21:00 hours on 7 March 2021 until 04:00 hours on 8 March 2021 or until the temporary traffic signs are permanently removed. A further closure will be required and will operate overnight from 21:00 hours on 3 April 2021 until 04:00 hours on 4 April 2021 and will be notified to the public by advance warning signs.

The layby closure will operate from 04:00 hours on 6 March 2021 until 04:00 hours on 7 March 2021 and from 21:00 hours on 7 March 2021 until 04:00 hours on 8 March 2021. A further closure will be required from 04:00 hours on 3 April 2021 until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the proposed Order is only expected to operate during the times and dates specified above it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

P HUISH
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

P HUISH
Transport
Welsh Government

ATODLEN 1
Gwahardd Cerbydau Dros Dro

1. Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A40 sy'n ymestyn o drwyniad cerbyttfordd gylchredol yr A40 wrth Gylchfan Dixon hyd at ffin Cymru/Lloegr.

ATODLEN 2
Cau Cilfan

2. Y darn o gilfan tua'r dwyrain yr A40 rhwng Cylchfan Dixon a ffin Cymru/Lloegr.

ATODLEN 3
Y Llwybr Arall

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain y mae cau'r gefnffordd wrth Gylchfan Dixon yn effeithio arno fydd mynd tua'r de-orllewin ar yr A466 Dixon Road, tua'r gogledd ar yr A466 yn Monk Street a thua'r de-ddwyrain ar yr A49 i gysylltu â'r A40 wrth Gylchfan Wilton.

SCHEDULE 1
Temporary Prohibition of Vehicles

1. The length of the A40 eastbound carriageway that extends from the nosing of the A40 circulatory carriageway at Dixon Roundabout to the Wales/England Border.

SCHEDULE 2
Closure of Layby

2. The length of the A40 eastbound Layby between Dixon Roundabout and the Wales/England Border.

SCHEDULE 3
Alternative Route

The alternative route for eastbound traffic affected by the closure at Dixon Roundabout will be diverted south westbound on the A466 Dixon Road, northbound A466 on Monk Street and south eastbound A49 to connect with the A40 at Wilton Roundabout.